

Presennol

Y Cyngorydd HJ David – Cadeirydd

CE Smith
RE Young

PJ White

HM Williams

D Patel

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

Gill Lewis	Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Susan Cooper	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Deborah Exton	Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Nicola Echanis	Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Robin Davies	Rheolwr Grŵp Strategaeth Fusnes a Pherfformiad
John Fabes	Swyddog Arbenigol: Addysg Ôl-16 a Hyfforddiant
Gaynor Thomas	Rheolwr Rhaglen Ysgolion

514. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd yr Aelodau canlynol fuddiannau personol yn Eitemau 8 a 9 ar yr Agenda fel a ganlyn:-

Y Cyngorydd HM Williams – Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Abercerdin

Cyngorydd Addysg RE Young – Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Bryn Castell ac Ysgol Gynradd Litchard

Y Cyngorydd D Patel – Llywodraethwr Ysgol yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen ac yn y broses o ailddatgan ei diddordeb fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr

Y Cyngorydd PJ White – Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Nantyllyfyllon a Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gyfun Maesteg

Y Cyngorydd CE Smith – Llywodraethwr Ysgol Babanod Cefn Glas a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr

Datganodd y Cyngorydd Smith fuddiant personol pellach yn Eitem 10 ar yr Agenda, gan y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad.

515. MONITRO CYLLIDEB 2020-21 RHAGOLWNG REFENIW CHWARTER 1

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor ar 30 Mehefin 2020 a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer trosglwyddiadau cyllideb rhwng £100k a £500k, fel sy'n ofynnol gan Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Eglurodd fod yr adroddiad hwn ychydig yn wahanol i adroddiadau chwarterol blaenorol o'r fath, oherwydd yr heriau a achoswyd gan y pandemig Covid yn y chwarter cyntaf eleni.

Atgoffodd y Cabinet fod y Cyngor, ar 26 Chwefror 2020, wedi cymeradwyo cyllideb referniw net o £286.885m ar gyfer 2020-21. Fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, adolygir amcanestyniadau cyllideb yn rheolaidd a'u hadrodd i'r Cabinet bob chwarter.

Y sefyllfa gyffredinol a rhagwelir ar 30 Mehefin 2020 yw gorwariant net o £3.051 miliwn, sy'n cynnwys gorwariant net o £2.803 miliwn ar gyfarwyddiaethau a gorwariant net o £248,000 ar gyllidebau corfforaethol. Cyfeiriwyd at Dabl 1 yn yr adroddiad. Mae'r sefyllfa a rhagwelir yn seiliedig ar:-

- Gynnwys ad-daliadau gwariant a wnaethpwyd hyd yma ar wariant COVID-19 gan Lywodraeth Cymru (LIC).
- Eithrio gwariant COVID-19 sy'n cael ei ddal yn ôl gan Lywodraeth Cymru ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.
- Eithrio gwariant COVID-19 nad yw wedi'i hawlio na'i ysgwyddo eto yn chwarteri 2 i 4.
- Eithrio cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer colli incwm gan nad yw lefel y cymorth wedi'i chadarnhau.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, at yr effaith a gafodd Covid-19 ar yr awdurdod lleol o ran gwariant, fel y nodir ym mharagraff 4.1.3 o'r adroddiad. Roedd hyn wedi digwydd, a byddai'n parhau i ddigwydd yn y dyfodol, a'r canlyniad oedd na allai'r Cyngor gyflawni ei arbedion yn llawn yn ogystal â derbyn lefelau incwm is.

Ychwanegodd y byddai angen i'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau a'i gyllidebau o ystyried effaith y pandemig, a'u hail-ganolbwyntio er mwyn symud tuag at gyfnod adfer mwy sefydlog wrth adael y cyfnod clo.

Roedd paragraff 4.1.5 o'r adroddiad yn rhoi manylion y cymorth ariannol a roddwyd i'r Cyngor mewn rhai meysydd allweddol, er mwyn helpu i liniaru rhai o effeithiau'r pandemig, tra bod paragraff 4.1.6 yn dangos hawliadau gwariant Covid-19 ar gyfer Chwarter 1 ar ffurf tabl, hawliadau a oedd yn parhau i gael eu gwneud i Lywodraeth Cymru bob mis. Ychwanegodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod hawliadau wedi'u gwneud am gyfanswm o £3m, a hyd yma roedd £2m wedi dod i law. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu 50% o gostau holl Gynghorau Cymru wrth ganiatáu i staff weithio gartref.

Roedd y Cyngor hefyd wedi cyflwyno cais am golli incwm i Lywodraeth Cymru ar gyfer chwarter cyntaf 2020-21. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £78m o gyllid i liniaru colled incwm, ond nid oes cytundeb ar hyn o bryd ar sut y bydd hwn yn cael ei ddosbarthu. Mae amcangyfrif Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y chwarter cyntaf i'w weld yn Nhabl 3 yr adroddiad, sef £2.518m.

Amlygodd adran nesaf yr adroddiad fod cyfraddau casglu incwm y Dreth Gyngor yn dioddef o ganlyniad i'r pandemig a bod cynnydd sylweddol yn nifer yr hawliadau a wnaed am Gredyd Cynhwysol.

Amlygodd meysydd nesaf yr adroddiad wybodaeth am drosglwyddiadau'r Gyllideb, chwyddiant cyflog/prisiau, cynigion i Leihau'r Gyllideb, a gostyngiadau yng nghyllideb y Flwyddyn Flaenorol. Pwysleisiodd fod £709k mewn gostyngiadau yn dal heb eu talu ers blynyddoedd blaenorol.

CABINET - DYDD MAWRTH, 21 GORFFENNAF 2020

Yna, ym mharagraff 4.2.5 o'r adroddiad, rhestrir, ar ffurf pwyntiau bwled, y cynigion mwyaf arwyddocaol i leihau'r gyllideb sy'n annhebygol o gael eu cyflawni'n llawn.

Yna, daeth y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid â'i hadroddiad i ben drwy amlinellu sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 30 Mehefin 2020, gan gynnwys effaith net Covid-19 ar sefyllfa ariannol y Cyngor, gan gynnwys ar sail Cyfarwyddiaeth fesul Cyfarwyddiaeth.

Tynnodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd sylw yn eu tro at yr ansicrwydd ariannol y mae'r Awdurdod wedi'i wynebu, ac yn parhau i'w wynebu, wrth symud ymlaen a gobeithiai y byddai'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i'r perwyl hwn yn parhau yn y dyfodol.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol ei diolch i Lywodraeth Cymru am y cymorth ariannol a ddangoswyd ym mharagraff 4.1.5 o'r adroddiad, yn enwedig mewn perthynas â dyrannu Grantiau Busnes.

PENDERFYNWYD: Fod y Cabinet:

- wedi nodi'r sefyllfa refeniw a rhagwelir ar gyfer 2020-21;
- wedi argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng £100,000 a £500,000 fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1.11 o'r adroddiad.

516. **ALLDRO RHAGLENNI CYFALAF 2019-20 AC ADRODDIAD CHWARTER 1 2020/21**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd:-

- Yn seiliedig ar y Codi Safon CIPFA (CIPFA) 'The Prudential Code for Capital Finance Local Authorities (argraffiad 2017)'
 - Yn seiliedig ar y Codi Safon CIPFA (CIPFA) 'The Prudential Code for Capital Finance Local Authorities (argraffiad 2017)'
 - Yn seiliedig ar y Codi Safon CIPFA (CIPFA) 'The Prudential Code for Capital Finance Local Authorities (argraffiad 2017)'
 - Yn seiliedig ar y Codi Safon CIPFA (CIPFA) 'The Prudential Code for Capital Finance Local Authorities (argraffiad 2017)'
 - Yn seiliedig ar y Codi Safon CIPFA (CIPFA) 'The Prudential Code for Capital Finance Local Authorities (argraffiad 2017)'
- 1 (Atodiad D i'r adroddiad)

Cyfeiriodd at sefyllfa bresennol yr adroddiad, a roddodd wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2019-20. Mae'r gyllideb wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 20 Chwefror 2019 wedi'i diwygio a'i chymeradwyo ymhellach gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn i ymgorffori cyllidebau a gyflwynwyd o 2018-19 ac unrhyw gynlluniau newydd a chymeradwyaethau grant. Cyfanswm y rhaglen ddiweddaraf ar gyfer 2019-20, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2020 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolog, oedd £30.137 miliwn, daw £13.964 miliwn

ohono o adnoddau CBSP, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn, a benthyciadau a glustnodwyd, gyda'r £16.173 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol.

Rhoddodd Atodiad A fanylion y cynlluniau unigol o fewn y rhaglen gyfalaf, gan ddangos y gyllideb sydd ar gael yn 2019-20 o gymharu â'r gwariant gwirioneddol. Dim ond ym mis Chwefror 2020 y cymeradwywyd y rhaglen ddiwygiedig, felly ychydig o atodiadau a fu ers hynny heblaw'r prif newidiadau canlynol:

cymeradwyaethau newydd o £1.964 miliwn o ganlyniad i gynllun grant newydd gan Llywodraeth Cymru - Grant Hwb ar gyfer Seilwaith

- Daeth £0.403 miliwn o gyllid yn ôl o 20-21 i adlewyrchu proffiliau gwariant.
- Arweiniodd hyn at y gyllideb ddiwygiedig o £32.504m.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid felly mai cyfanswm y gwariant ar 31 Mawrth 2020 oedd £22.822m, gan arwain at gyfanswm tanwariant o £9.682m.

Eglurodd adran nesaf yr adroddiad fod nifer o gynlluniau wedi'u gohirio oherwydd sefyllfa Covid-19, gan lithro i 2020-21, a bod angen £9.073m ar eu cyfer, dangoswyd y rhain ym mharagraff 4.1.4 o'r adroddiad.

Rhoddodd adran nesaf yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21, ers i'r gyllideb gael ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor, ac mae'n ymgorffori unrhyw gynlluniau newydd a chymeradwyaethau grant. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 â chyfanswm o £62.305 miliwn, daw £40.313 miliwn ohono o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn a benthyciadau, gyda'r £21.992 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol.

Manylwyd ar y Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth ar gyfer 2020-21 yn Nhabl 1 ym mharagraff 4.2.1 o'r adroddiad.

Rhoddodd Tabl 2 ym mharagraff 4.2.2 o'r adroddiad amlinelliad o Adnoddau Rhaglen Gyfalaf 2020-21, a disgrifiodd sut y byddai'r cyfanswm o ychydig dros £62m yn cael ei ariannu.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid at Atodiad B i'r adroddiad, a roddodd fanylion y cynllun unigol o fewn y Rhaglen Gyfalaf, gan ddangos y gyllideb a oedd ar gael yn 2020-21, o'i gymharu â'r gwariant rhagamcanol ar 30 Mehefin 2020.

Roedd paragraff 4.2.4 o'r adroddiad yn nodi fod nifer o ddiwygiadau i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020-21, megis cynlluniau newydd a chynlluniau diwygiedig, ers iddo gael ei gymeradwyo ddiwethaf a manylwyd ar y rhain yn adran nesaf yr adroddiad.

Felly, amgaewyd Rhaglen Gyfalaf Ddiwygiedig yn Atodiad C i'r adroddiad.

Yn rhan olaf yr adroddiad rhoddwyd gwybodaeth ynglŷn â Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2020-21, a'u bod yn cael eu monitro, yn ogystal â gwybodaeth am Fonitro Strategaeth Gyfalaf.

Roedd Atodiad D yr adroddiad yn manylu ar y dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2019-20, yr amcangyfrif o'r dangosyddion ar gyfer 2020-21 a nodir yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig. Roedd y rhain yn adlewyrchu bod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'r terfynau cymeradwy.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod y gwaith brys i ddarparu llety addysgu amgen yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, yn sgil cau'r adeilad gwreiddiol yr ysgol ar sail iechyd a diogelwch, wedi golygu gwariant ychwanegol i'r Cyngor o £1.2m, ac roedd hyn wedi bod yn gost annisgwyl.

Fodd bynnag, roedd yn falch fod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan wedi'u gosod yn Ravens Court, yn ogystal â'r Ganolfan Llety Preswyl Plant newydd yn Ysgol Gynradd Brynmenyn.

Caeodd yr Arweinydd ddadl ar yr eitem hon drwy ofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd a allai egluro'r gwaith a oedd yn cael ei gynllunio ar gyfer Ysgol Gynradd Croesty.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd, y byddai hyn yn cynnwys prosiect a fyddai'n arwain at ddarparu llety ychwanegol yn yr ysgol ar gyfer plant blynyddoedd cynnar a phlant cyfnod sylfaen.

PENDERFYNWYD: Fod y Cabinet:

- wedi nodi'r alldro cyfalaf ar gyfer 2019-20 (Atodiad A i'r adroddiad)
- wedi nodi diweddariad Rhaglen Gyfalaf 2020-21 Chwarter 1 y Cyngor i 30 Mehefin 2020 (Atodiad B i'r adroddiad)
- wedi cytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad C i'r adroddiad) i'r Cyngor i'w gymeradwyo
- wedi nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill rhagamcanol ar gyfer 2020-21 (Atodiad D i'r adroddiad)

517. GRANT LLYWODRAETH CYMRU - CYNLLUN PEILOT CARTREFI GWAG CYMOEDD Y GORLLEWIN

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi cefndir a goblygiadau ariannol a gweithredol y prosiect uchod i'r Cabinet, ac i ofyn i'r Cabinet argymhell i'r Cyngor gynnwys yr arian cyfatebol ar gyfer y cynllun ynddynt.

Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno 2 fenter i ganolbwyntio ar sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio drachefn, fel y disgrifir yn yr adroddiad.

Mae rhannau gogleddol Pen-y-bont ar Ogwr o fewn dalgylch Tasglu'r Cymoedd.

Ar 30 Mehefin 2020 cymeradwyodd y Cabinet gam 2 o Grant Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd, a rhoddwyd cymeradwyaeth i ymrwymo i gytundeb â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RCT), a fydd yn rhedeg ac yn gweinyddu'r Grant ar gyfer y rhannau gogleddol hynny o'r Sir yn unig.

Mae'r 2 brosiect yn wahanol, mae'r fenter Tasglu'r Cymoedd ar gael i bobl sy'n dymuno prynu tŷ gwag, neu berchnogion eiddo gwag, i wneud cais am grant, ar yr amod bod y tŷ wedi bod yn wag am 6 mis a'u bod yn bwriadu byw yn yr eiddo fel eu prif gartref am o leiaf 5 mlynedd. Mae prosiect Cartrefi Gwag Cymoedd y Gorllewin yn grant sydd wedi'i gynllunio i ganiatáu i landlordiaid ddod ag eiddo'n ôl i ddefnydd, ac i dderbyn hawliau enwebu at ddibenion tai cymdeithasol o wneud.

Roedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cytuno mewn egwyddor i ddyrannu cyllid cyfalaf o hyd at £169,000 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn 2020-21 i sefydlu cynllun peilot blwyddyn. Mae'r cynnig o arian grant yn amodol ar y Cyngor yn darparu arian cyfatebol o 35%, sef yr un ganran o arian cyfatebol y mae'r Cyngor yn ei ddarparu o dan y prosiect Tasglu'r Cymoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y cynnig hwn yn seiliedig ar y cyfrifiadau a amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Byddai angen nodi lleoliadau penodol lle mae angen am dai i gymryd rhan yn y prosiect.

Ni ellir cymhwyso'r cynllun ar y cyd â chynlluniau eraill, a gwrthodwyd cais i Lywodraeth Cymru i drosi'r cynllun hwn yn brosiect Tasglu'r Cymoedd er mwyn sicrhau cynnig cyson ledled y sir. Gwrthodwyd cais pellach hefyd i ganiatáu i'r arian hwn gael ei ddefnyddio fel cyllid atodol i'r RSL brynu eiddo gwag.

Cynigiwyd bod y Cabinet yn cytuno i gymryd rhan yn y peilot, ac yn argymhell bod y Cyngor yn darparu'r arian cyfatebol o hyd at £91,000. Gall cyfyngiadau Covid-19 a'r amser sydd ar ôl o'r flwyddyn ariannol hon effeithio ar y canlyniad terfynol ac efallai na chyflawnir 13 eiddo. Felly, bydd lefel y grant a'r arian cyfatebol yn cael ei haddasu ar sail pro rata.

Teimlai'r Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol, y dylai cynigion grant tebyg i'r math a grybwyllir yn yr adroddiad fod ar gael i berchnogion eiddo ac ati, y tu allan yn ogystal ag o fewn i ardal y cymoedd.

Croesawodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr adroddiad, gan ychwanegu bod eiddo gwag a/neu adfeiliedig yn niweidio'r dirwedd, a bod y fenter yn un gadarnhaol, yn enwedig o ran Tai Cymdeithasol.

Teimlai'r Arweinydd y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet maes o law er mwyn amlinellu pa mor llwyddiannus fu'r peilot.

PENDERFYNWYD:

Fod y Cabinet:

- yn cymeradwyo cyfranogiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (BCBS) ar Ogwr yn y cynllun ac i ddod i gytundeb â Llywodraeth Cymru;
- yn argymhell i'r Cyngor y dylid diwygio'r rhaglen gyfalaf i gynnwys costau llawn y cynllun, gan gynnwys £169,000 grant Llywodraeth Cymru a chyfraniad arian cyfatebol BCBS o £91,000.
- Yn disgwyl am adroddiad pellach i amlinellu llwyddiant y cynllun peilot

518. **ESTYNIAD I'R CONTRACT - GWASANAETH BYW GYDA CHYMORTH CLOS PENGLYN**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio awdurdod i amrywio'r contract presennol gyda DRIVE Ltd mewn perthynas â'r gwasanaeth byw â chymorth arbenigol yng Nghlos Penglyn, a hynny trwy ymestyn y tymor presennol am 12 mis arall, yn unol â Rheol Gweithdrefn y Contract (CPR) 3.2.9.3.

Eglurodd fod y contract presennol ar gyfer darparu gwasanaeth byw â chymorth arbenigol yng Nghlos Penglyn ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu cymhleth ac awtistiaeth wedi'i gomisiynu yn 2016, ac fe'i dyfarnwyd i DRIVE Ltd yn dilyn ymarfer tendro. Daw'r contract presennol sydd ar waith gyda DRIVE Ltd i ben ar 31 Awst 2020, heb unrhyw ddarpariaeth i'w ymestyn.

Oherwydd effaith sylweddol ac annisgwyl pandemig Covid-19, a'r cyfyngiadau symud dilynol i reoli heintiau pellach, ni fu'n bosibl i swyddogion gynnal ymarfer ail-gomisiynu fel y bwriadwyd yn wreiddiol, na thendro'r gwasanaeth yn gystadleuol.

O ystyried ansicrwydd ynghylch hyd y mesurau 'cyfnod clo' presennol sydd ar waith, cynigir y dylid ymestyn y contract presennol gyda DRIVE Ltd ar gyfer darparu gwasanaeth byw â chymorth arbenigol yng Nghlos Penglyn am 12 mis arall, hyd 31 Awst 2021, sef yr amser sydd ei angen er mwyn cynnal ymarfer ail-gomisiynu. Bydd y gweithgaredd ailgomisiynu yn golygu ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, a bydd yn dibynnu ar leddfu cyfyngiadau presennol cyfnod clo Covid-19. Mae problemau capasiti hefyd gan fod aelodau'r Tîm Comisiynu yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â Covid 19, mae hyn oll yn gofyn estyniad pellach o 12 mis.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod darpariaeth o dan CPR 3.2.9.3 i geisio addasu contract sy'n bodoli eisoes o dan rai amgylchiadau, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad.

Cwblhaodd yr eitem hon drwy gadarnhau bod effaith pandemig Covid-19 yn achos dros addasu, yn sgil amgylchiadau na allai'r Cyngor fod wedi'u rhagweld wrth ymrwymo i'r contract gwreiddiol gyda Drive. Ni fyddai natur gyffredinol y contract yn cael ei newid, a bydd yr holl delerau cytundebol eraill yn aros yn ddigyfnawid, yr unig amrywiad arfaethedig yw'r estyniad o 12 mis. Nid yw'r addasiad arfaethedig yn fwy na 50% o werth gwreiddiol y contract.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yr Aelodau at oblygiadau ariannol yr adroddiad, i gael rhagor o fanylion am werth yr addasiad arfaethedig.

Roedd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar o blaid ymestyn y contract am 12 mis, oherwydd y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod y newidiadau a wneir wedi mynd i'r afael â rhai o'r pryderon cynyddol a amlygwyd yn yr adroddiad, ac roedd o'r farn y dylid diweddarau'r Aelod(au) lleol yr ardal ar benderfyniad y Cabinet yn y mater hwn.

PENDERFYNWYD:

Fod y Cabinet yn awdurdodi addasu'r contract presennol gyda DRIVE Ltd mewn perthynas â Chlos Penglyn drwy ymestyn y tymor presennol am 12 mis arall hyd at 31 Awst 2021, yn unol â CPR 3.2.9.3.

519. **NODI ADRODDIAD GWYBODAETH**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet o Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers ei gyfarfod diwethaf, ac sydd angen ei nodi (ac a oedd ynghlwm).

Dangoswyd manylion yr Adroddiad Gwybodaeth ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad eglurhaol.

PENDERFYNWYD:

Fod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddiad y ddogfen a restrir yn yr adroddiad.

520. **POLISI TEITHIO GAN DDYSGWYR**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad, a'i ddiben oedd:

- adrodd ar ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori a gymeradwywyd gan y Cabinet ynghylch y newidiadau arfaethedig i Bolisi Teithio gan Ddysgwyr yr awdurdod lleol;
- cynorthwyo'r Cabinet i benderfynu a ddylai symud ymlaen ag unrhyw un o'r cynigion ai peidio;
- nodi sut y byddai'r cynigion yn cyfrannu at yr arbedion cyffredinol i strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor;
- gofyn am atal rheolau gweithdrefn contract yr awdurdod lleol mewn perthynas ag ail-dendro contractau bws, bws mini, bws mini arbennig a rhai contractau tacsî; A
- adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad strategol annibynnol o drafnidiaeth.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio fod nifer sylweddol o argymhellion wedi'u cynnwys ar dudalen 107 yr adroddiad gan yr adran Graffu, a'i fod o'r farn y dylid rhoi mwy o ystyriaeth iddynt cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad o ran yr adroddiad.

Teimlai felly y dylid gohirio'r adroddiad i gyfarfod y Cabinet a drefnwyd ar gyfer 15 Medi 2020 am y rheswm uchod a chefnogwyd y cynnig hwn yn unfrydol gan holl aelodau'r Cabinet.

PENDERFYNWYD: Fod y Cabinet yn gohirio'r adroddiad hwn i'w gyfarfod nesaf, er mwyn rhoi ystyriaeth bellach i argymhellion y cydbwyllgor SO&SC 1 ac SO&SC 2 dyddiedig 6 Gorffennaf 2020.

521. ADBORTH AR GAM 4 YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GYSYNIADAU POSIBL AR GYFER DARPARIAETH ÔL-16 AR DRAWS CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR AC ARGYMHELLION AR GYFER DYFODOL YR AROLWG

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd gyflwyniad byr i adroddiad ar yr adborth o ymgynghoriad cyhoeddus Cam 4 yr adolygiad i ddarpariaeth ôl-16 ar draws CBSP. Yna gwahoddodd y Swyddog Arbenigol ar gyfer ôl-16 i drafod manylion yr adroddiad.

Eglurodd mai diben yr adroddiad oedd rhoi adborth ar yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 2/12/2019 a 21/02/2020 ar Gam 4 yr adolygiad o ddarpariaeth addysg ôl-16 ar draws CBSP. Dywedodd fod yr ymgynghoriad yn cyflwyno tri opsiwn i'w hystyried a disgrifiwyd y rhain ym mharagraff 3.2. o'r adroddiad.

Adroddodd y Swyddog Arbenigol ar gyfer ôl-16 fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ymarfer cadarn a oedd yn cynnwys arolwg ar-lein, sesiynau gweithdy gyda 1,235 o ddysgwyr mewn ysgolion a choleg, cyfarfodydd cyhoeddus i rieni/gofalwyr, a sesiynau ymgysylltu â staff a llywodraethwyr mewn ysgolion a'r coleg (341 yn bresennol).

Wrth gyfeirio at ganlyniadau'r arolwg ar-lein, nododd y Swyddog Arbenigol ar gyfer ôl-16 mai Opsiwn 3, cadw dosbarthiadau chwech ym mhob ysgol uwchradd, oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd, gyda 75% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'r opsiwn hwn ac 85% yn ei raddio fel eu dewis cyntaf.

Gan ganolbwyntio ar baragraff 3.7.1 o'r adroddiad, tynnodd sylw'r Cabinet at y modd yr arddangosir canlyniadau'r gwahanol leoliadau ysgol, gan hwyluso gwell dealltwriaeth o'r data yn ogystal â'r adborth gan Fryntirion a Choleg Cymunedol y Dderwen, dwy ysgol a oedd wedi darparu cyfran arbennig o uchel o ymatebwyr. Yn ogystal â'r dadansoddiad canrannol o'r ymatebion, roedd yr adran hefyd yn nodi'r tri darn o adborth ysgrifenedig a welwyd amlaf o bob un o'r canlyniadau a awgrymwyd.

Nododd hefyd, er bod 47% o'r holl ymatebwyr yn 'anghytuno'n gryf' ag Opsiwn 2, Canlyniad B, roedd ymatebion Ysgol Gyfun Pencoed i'r gwrthwyneb, gyda 72% mewn 'cytundeb' â'r cynnig am academi STEAM newydd y coleg ar gampws Pencoed.

Eglurodd y Swyddog Arbenigol ar gyfer ôl-16 ei fod, ym mharagraff 3.8 o'r adroddiad, wedi rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r arolygon a gwblhawyd gan ddysgwyr yn y sesiynau gweithdy fel y gallai aelodau'r Cabinet gymharu a chyferbynnu'r ystod o ymatebion ar draws pob lleoliad ysgol uwchradd. At hynny, rhoddodd paragraffau 3.8.1 i 3.8.10 o'r adroddiad fanylion am gyfran gymharol y dysgwyr o'r gwahanol gyfnodau allweddol a oedd wedi cymryd rhan yn y gweithdai.

Ym mharagraff 3.9, tynnodd y Swyddog sylw at y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ohebiaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd gan CBSP a'r safbwyntiau a fynegwyd yn y cyfarfodydd agored.

Yna cyfeiriodd y Swyddog Arbenigol ar gyfer ôl-16 at baragraffau 4 o'r adroddiad, a dywedodd mai'r adran hon oedd yn rhoi'r safbwynt diweddaraf ar y prif faterion a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad. Y mater a oedd wedi creu'r sylw mwyaf oedd teithio a chyflwynwyd gwybodaeth allweddol ynglŷn â hyn ym mharagraff 4.1. Nododd y cysylltiad rhwng yr adran hon o'r adroddiad gyda'r adroddiad ar Deithio gan Ddysgwyr yr oedd y Cabinet wedi'i ohirio tan ei gyfarfod ym mis Medi.

Aeth ymlaen wedyn i sôn am feysydd polisi a strategaeth ehangach eraill a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac a allai effeithio ar ddyfodol darpariaeth ôl-16. Y mwyaf nodedig o'r rhain oedd y Cynllun Datblygu Lleol newydd sy'n cael ei lunio i redeg o 2021, a chydbwysedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y dyfodol.

Rhoddodd paragraff 4.6 yr adroddiad fanylion mwy penodol am yr opsiynau a'r canlyniadau, gydag arwyddion ar sut y gellir bwrw ymlaen â'r rhain neu beidio.

Yna cyfeiriodd y Swyddog Arbenigol ar gyfer ôl-16 at gyfarfod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 a 2 a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020, ac ym mharagraff 4.7 darparwyd crynodeb o'r pwyntiau penodol a godwyd gan aelodau etholedig y cydbwyllgor hwn. Teimlai Swyddogion fod y rhan fwyaf o'r pwyntiau wedi cael sylw yn adroddiad y Cabinet neu drwy'r argymhellion i'r Cabinet.

Yna, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cabinet am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r goblygiadau i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y nodwyd yn y rhan o'r adroddiad a gyfeiriodd at y rhain.

Nododd y Swyddog Arbenigol ar gyfer ôl-16 y sefyllfa ariannol ym mharagraff 8 yr adroddiad a'r gwelliant bach yng ngrant ôl-16 2020-2021 gan Lywodraeth Cymru o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, lle'r oedd y gyllideb wedi bod yn gostwng.

Yn olaf, oherwydd yr ystod eang o ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, cyfeiriodd at baragraff 9 o'r adroddiad a oedd yn nodi nifer o argymhellion a oedd yn cael eu gwneud i'r Cabinet ynghylch dyfodol darpariaeth addysg ôl-16 ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Canmolodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio yr adroddiad, a oedd yn fanwl ac yn gynhwysfawr iawn, a chefnogodd argymhellion yr adroddiad hefyd.

Roedd yn gwerthfawrogi mewnbyn yr adran Graffu ac roedd cynigion yr adroddiad yn adlewyrchu bod yr Awdurdod wedi gwrandao ar rieni, llywodraethwyr, dysgwyr ac athrawon hefyd.

Yr oedd yn amlwg bod y rhain am i'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth barhau ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda hyn yn cael ei ymestyn i ganiatáu mwy o ddewis a chyda hynny mwy o gyfleoedd.

PENDERFYNWYD: Fod y Cabinet

- wedi nodi cynnwys yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad: Y posibilrwydd o ad-drefnu darpariaeth ôl-16 ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r dyfyniadau manwl cysylltiedig yn Atodiadau 2 i 16.
- wedi dewis parhau ag Opsiwn 3 fel ateb ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, gan ei gwneud yn ofynnol i ysgolion weithio gyda'i gilydd i gyflawni amrywiaeth o welliannau i'r sefyllfa bresennol, fel y rhai a restrir yn adran 4.6.7.
- Wedi dechrau datblygu strategaeth Sirol ar gyfer dysgu cyfunol gan dynnu ar brofiadau diweddar ysgolion y Sir yn ystod cyfnod clo Covid-19, a chan ystyried profiadau, cyngor, ac arferion rhanbarthol a chenedlaethol.
- Wedi cymryd canlyniadau penderfyniadau ar Gludiant i'r Ysgol, Cynllun Datblygu Lleol 2021+, ac addysg cyfrwng Cymraeg a'u hymgorffori mewn strategaeth hirdymor ar gyfer capasiti a dalgylchoedd ysgolion uwchradd, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth.
- Wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r dewis o gael canolfan chweched dosbarth ar gampws Pen-coed Coleg Pen-y-bont mewn cydweithrediad â'r ganolfan STEAM newydd.
- Wedi ymchwilio i'r potensial i ehangu Coleg Cymunedol y Dderwen o fewn cyddestun y cais cynllunio gwreiddiol i'w galluogi i gwrdd â'r galw a ragwelir am leoedd, ac am ddarpariaeth a chydweithio ôl-16 yn rhan ogleddol y Fwrdeistref Sirol.
- Wedi cytuno, os daw Ysgol Arbennig Heronsbridge ar gael, y dylid ystyried ei ddefnyddio yn y dyfodol fel canolfan ragoriaeth chweched dosbarth.

522. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION BAND B, MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL PARTNERIAETH ADDYSG GYMRAEG - CYTUNDEB PARTNERU STRATEGOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau llywodraethu y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM), a gofynnodd i'r Cabinet ystyried cytuno i'r cynigion ym mharagraff 1.1 o'r adroddiad.

Roedd Adrannau 3.1 a 3.2 o'r adroddiad yn manylu ar benderfyniadau'r Cabinet mewn perthynas â'r cynlluniau Band B, ac yn cadarnhau'r amlen ariannu o £68.2m a gymeradwywyd.

Cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion fod MIM, wedi'i gynllunio i ariannu prosiectau cyfalaf mawr oherwydd prinder cyllid cyfalaf. Mae'n seiliedig ar strwythurau Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat traddodiadol, ond gyda'r egwyddorion craidd canlynol wedi'u hymgorffori, nodir y rhain mewn pwyntiau bwled yn adran 3.3 o'r adroddiad.

O dan y MiM, bydd partneriaid y sector preifat yn adeiladu ac yn cynnal asedau cyhoeddus ac, yn gyfnewid am hynny, bydd y Cyngor, gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru, yn talu ffi i'r partner preifat am gostau adeiladu, cynnal a chadw ac ariannu'r prosiect. Ar ddiwedd y contract mae'r ased yn dychwelyd i'r Cyngor. Ychwanegodd fod y Cabinet yn ymwybodol mai 81% yw cyfradd ymyrraeth ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau MIM.

Ers mis Hydref 2019 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal proses gaffael i ganfod partner yn y sector preifat i gydweithio ar gyflawni cynlluniau MIM, o dan Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif. Dyma'r unig ffordd o gyflawni prosiectau Band B a ariennir gan refeniw. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n penodi partner sector preifat. Bydd yn ofynnol i'r partner llwyddiannus o'r sector preifat ffurfio Partneriaeth Addysg Cymru Co (WEPCo) gydag is-gwmni i Fanc Datblygu Cymru, a'r bartneriaeth fydd yn darparu'r gwasanaethau seilwaith.

Atgoffodd yr Aelodau ymhellach fod y Cabinet wedi penderfynu ariannu dau gynllun drwy MIM o'r blaen.

O ran y Cytundeb Partneriaeth Strategol, y cyfranogwyr i'r trefniadau fydd nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Bydd y Cyfranogwyr a WEPCo yn llunio Cytundeb Partneriaeth Strategol (SPA) (Atodiad 1 i'r adroddiad a gyfeirir ato).

Mae'r Cytundeb Partneriaeth Strategol yn darparu ar gyfer dull gweithredu hirdymor y partion o fewn partneriaeth gydweithredol, yn an-wrthwynebol ac yn agored, er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio, caffael, a darparu cyfleusterau addysg a chymunedol yn effeithiol yng Nghymru, ac i ddarparu gwasanaethau seilwaith. Disgwylir i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol gael ei weithredu ym mis Medi 2020.

Tymor cychwynnol y Cytundeb Partneriaeth Strategol yw 10 mlynedd. Gall hyn gael ei ymestyn o 5 mlynedd gan unrhyw un neu fwy o Gyfranogwyr. O dan y Cytundeb Partneriaeth Strategol, mae'n ofynnol i WEPCo ddarparu gwasanaethau partneru i'r Cyfranogwyr fel y nodir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad.

Yna, mae paragraff 4.3 yn nodi pa wasanaethau y mae gan WEPCo hawliau unigryw i'w darparu i'r Cyfranogwyr o ran datblygu prosiectau, gwasanaethau partneru, a gwasanaethau prosiect ar gyfer prosiectau cymwys - gan gynnwys Band B. Cafwyd cyfle hefyd i gyflawni prosiectau cyfalaf ar sail anghyfyngedig.

Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen Ysgol at Atodiad 2 yr adroddiad, a oedd yn rhoi crynodeb manylach o'r Cytundeb Partneriaeth Strategol.

Ychwanegodd mai Bwrdd Partneriaeth Strategol (SPB) yw'r cyfrwng gwarchodol ar gyfer yr ymrwymadau hyn, a'r bwrdd fydd y prif fecanwaith wrth reoli perfformiad WEPCo.

Nodwyd rôl y SPB ym mharagraff 4.10 o'r adroddiad.

Roedd yn angenrheidiol i'r Cyngor benodi cynrychiolydd i eistedd ar y Bwrdd, a nodir priodweddau delfrydol deiliad y swydd ym mharagraffau 4.11 a 4.12, gyda pharagraff 4.13 yn manylu ar drefniadau gweithredol y Bwrdd.

Ceir crynodeb manylach o rôl y Bwrdd yn atodiad 3 yr adroddiad.

Yna, roedd paragraffau 4.15 i 4.19 yr adroddiad yn manylu ar y broses i fwrw ymlaen â phrosiectau WEPCo a sut yr ymdrinnir â hwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i ymrwymo i'r trefniadau gyda WEPCo drwy Gytundeb Partneriaeth Strategol p'un a oes ganddynt Gynllun MIM ar waith neu ddim, a hynny oherwydd bod WEPCo hefyd yn cynnig Gwasanaethau Partneriaeth Cymorth Strategol a all gynorthwyo Cyfranogwyr gyda chynllunio ystadau neu weithgareddau cysylltiedig.

Nid oedd y ddogfen Cytundeb Partneriaeth Strategol ar ei ffurf derfynol eto, ond ni ragwelwyd y bydd y Cytundeb Partneriaeth Strategol drafft yn newid yn sylweddol

unwaith y bydd ymgeisydd a ffafir wedi'i gymeradwyo. Argymhellwyd bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor, Addysg a Chymorth i Deuluoedd, ar ôl ymgynghori â'r swyddog monitro, i gytuno ar delerau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Strategol a gwneud unrhyw fân ddiwygiadau angenrheidiol iddo, yn ôl y gofyn.

Er bod mecanwaith o fewn y Cytundeb Partneriaeth Strategol a fydd yn caniatáu i'r Cyfranogwyr hynny (a enwir yn yr OJEU) gofrestru ar ôl Medi 2020 drwy weithred o ymlyniad (DoA), bydd hyn yn creu sawl cymhlethdod fel y nodir yn y pwyntiau bwled o dan baragraff 4.23 o'r adroddiad

Pe bai Cyfranogwr yn dewis peidio â llofnodi'r Cytundeb Partneriaeth Strategol neu'r Weithred o Ymlyniad, ac yna'n dymuno cael mynediad i Wasanaethau Partneriaeth neu Wasanaethau Prosiect gan WEPCo yn y dyfodol, ni fyddent yn gallu eu caffael mewn modd diogel. Manylwyd ar y risgiau yma yn 4.25 o'r adroddiad

Darperir Proses Gaffael Llywodraeth Cymru ar gyfer y partner cyflawni ym mharagraffau 4.26 i 4.29

Ychwanegodd Rheolwr Rhaglen yr Ysgol fod yr adroddiad wedi'i ddrafftio yn ystod y cyfnod segur (Alcatel). Roedd Llywodraeth Cymru wedi adrodd bod pob ymgeisydd wedi cael gwybod am ganlyniad y gwerthusiad ac ers hynny roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r broses.

Mae cymeradwyaeth i ymrwymo i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol (SPA) yn swyddogaeth weithredol sy'n gofyn am benderfyniad gan y Cabinet. Roedd paragraffau 4.31 i 4.39 o'r adroddiad yn manylu ar yr agweddau cyfreithiol yma.

Er nad oes unrhyw ganlyniad ariannol o ran cytuno i ymrwymo i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol, mae'n bwysig nodi y bydd ysgolion MIM, os cânt eu cwblhau, yn arwain at bwysau cyllidebol refeniw a gaiff eu hystyried fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Gofynnodd yr Arweinydd am gyngor nad oedd y Cabinet wrthi'n cytuno i unrhyw Brosiectau Braenaru penodol ar hyn o bryd, ac y byddai hyn yn destun adroddiad pellach i'w dderbyn maes o law.

Cadarnhaodd Rheolwr Rhaglen yr Ysgol fod hyn yn wir ac y byddai Astudiaethau Dichonoldeb i'w cynnal ddiwedd yr hydref/gaeaf yn arwain at y broses uchod.

PENDERFYNWYD: Fod y Cabinet

- (a) Wedi nodi cynnydd Cam y Cynigydd a Ffefrir o Weithdrefn Deialog Gystadleuol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad hwn;
- (b) Wedi cymeradwyo gweithredu, cyflawni, a pherfformio'r Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda Chydbartneriaeth Addysg Cymru ym mis Medi 2020 er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth o amrywiaeth o wasanaethau seilwaith ac i ddarparu addysg a chyfleusterau cymunedol;
- (c) wedi cymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth Strategol yn Atodiad 1 a'i grynhoi yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn er mwyn rhoi ei effaith i argymhelliad (b), yn ddarostyngedig i'r argymhelliad (d) isod;

(d) wedi rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd, ar ôl ymgynghori â'r swyddog monitro a'r swyddog Adran 151:

(i) I gymeradwyo telerau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Strategol, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol a gymeradwyir yma, am resymau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwblhau unrhyw feysydd sydd heb eu cwblhau; ac

(ii) I gymeradwyo unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol;

(e) Wedi nodi, wrth gytuno i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol, na ofynnir iddynt benderfynu bwrw ymlaen ag unrhyw Brosiect Braenaru, ac nad oes dim o fewn y Cytundeb Partneriaeth Strategol sy'n ymrwymo'r Cyngor i wneud unrhyw ymrwymiad o'r fath. Bydd unrhyw benderfyniad i frw ymlaen â Phrosiect Braenaru yn cael ei adrodd i'r Cabinet mewn adroddiad(au) yn y dyfodol er mwyn penderfynu. (Tudalen 592 o'r adroddiad)

(f) Wedi cymeradwyo penodi'r Cynghorydd Dr Charles Smith, yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fel 'Cynrychiolydd Cyfranogwyr' i eistedd ar y Bwrdd Partneru Strategol (SPB).

523. EITEMAU BRYD

Dim

524. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn

cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 16 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyriwyd bod budd y cyhoedd mewn cynnal yr esemptiad, ym mhob amgylchiad sy'n ymwneud â'r eitem, yn drech na budd y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

525. GRANT CYFALAF ARFAETHEDIG O GRONFA GOFAL INTEGREDIG I LINC CYMRU

Daeth y cyfarfod i ben am 16:38